***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 679 (Cy.67)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 128(4)(b) a (c) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004 a deuant i rym ar 1 Awst 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw yn ddydd Sadwrn, Sul, neu yn ŵYl y Banc; ac

ystyr "y Prif Arolygydd" ("*the Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru(**2**).

**Cynllun gweithredu**

**2.**—(1) Rhaid cyhoeddi datganiad o dan adran 128 o Ddeddf 2000 ("cynllun gweithredu") o fewn cyfnod o 50 diwrnod gwaith (mae hwn yn gymwys p'un ai bod gofyn cyfieithiad a'i pheidio), o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad priodol o dan drefniadau a wnaed gan y Prif Arolygydd.

(2) Rhaid cyhoeddi'r cynllun gweithredu drwy sicrhau ei fod ar gael yn swyddfeydd y person a y gwasanaeth a arolygwyd, i'w archwilio ddarparodd gan aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol, ac ar unrhyw wefan sydd gan y person hwnnw, sydd yn gysylltiedig a'r gwasanaeth.

(3) Rhaid danfon copi o'r cynllun gweithredu yn rhad ac am ddim at bob un o'r canlynol —

(a) y Prif Arolygydd;

(**1**) 2000 p.21.

(**2**) *Gweler* adran 4 o Ddeddf Ymchwiliadau Ysgolion (p.57). Amnewidiwyd y teitl presennol, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant gan adran 73(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

(b) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) Cyngor Addysg a Hyfforddiant i Gymru;

(ch) unrhyw gyfundrefnau eraill sydd yn cyfrannu at ddarparu y gwasanaethau cymorth ieuenctid nad oeddent wedi eu cynnwys yn adroddiad gwreiddiol y Prif Arolygydd;

(d) grwpiau o gynrychiolwyr pobl ifanc o fewn yr ardal y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdani;

(dd) pob cyngor ysgol o fewn yr ardal y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdani; ac

(e) unrhyw bartneriaeth a sefydlwyd gan yr awdurdod lleol i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol) —

(i) i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant,

(ii) i gymryd mantais o gyfleoedd ar gyfer gweithio, neu

(iii) i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

(4) Rhaid hefyd anfon copi o'r cynllun gweithredu (yn rhad ac am ddim) at unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd yn gofyn am gopi.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*John Marek*
9 Mawrth 2004 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn datgan amserlen gyhoeddi datganiadau o dan adran 128 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, a hefyd, at bwy y dylid danfon copi o'r datganiad.

Mae datganiad o dan adran 128 yn ddatganiad o'r weithred sydd yn cael ei chynnig gan yr adnabyddiaeth yr arolygwyd ei gwasanaeth, yn sgíl adroddiad ac yn dilyn arolygiad gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Gall y Prif Arolygydd drefnu cyhoeddi adroddiad o arolygiad wedi arolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid y mae awdurdod lleol wedi ei gyfarwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol i'w ddarparu, ei ddiogelu neu gymryd rhan ynddo.